

Newidiadau i Anghenion Addysg Arbennig (AAA) / Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru.

gan 1102078.

AAA i ADY

Bydd y term newydd, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael ei gymhwyso o fewn un fframwaith deddfwriaethol ar gyfer holl blant a phobl ifanc hyd at 25 oed (Dauncey, 2018). Dywed Dauncey (2018) bod y diffiniad y mae'r Ddeddf yn ei ddefnyddio ar gyfer ADY yr un peth a'r diffiniad cyfreithiol presennol o AAA. Mi fydd sefyllfa'r Cydlynnydd ADY yn disodli'r rôl Cydlynnydd AAA anstatudol bresennol, ble mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei fod yn cael ei dehongli'n wahanol ar draws lleoliadau ac awdurdodau (Dauncey, 2018).

Mae gan gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) chyfrifoldeb o fewn yr ysgol am gydlynw darpariaeth ADY o fewn yr ysgol yna (Dauncey, 2016). Mae gan y cydlynnydd ADY rôl allweddol wrth weithio gyda'r athrawon dosbarth wrth nodi ADY y disgybl a pha fath o ymyriad sydd ei angen (Dauncey, 2016). Yn ôl Estyn (2018) mae gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon ledled Cymru o ADY yn gyffredinol yn rhy amrywiol. Nid oes digon o ysgolion yn blaenoriaethu hyfforddiant ysgol gyfan ar ADY a dyw ysgolion ddim yn gwneud digon i ddatblygu dulliau cynhwysol ysgol gyfan a pherchnogaeth disgyblion ag ADY (Estyn, 2018).

Yn ôl Estyn (2018) ni chaiff arfer da mewn perthynas ag ADY ei rannu'n fwy eang ar draws yr athrawon yn yr ysgol neu rhwng ysgolion. Bydd hyn yn bwysig iawn trwy gyflwyno'r Cod ADY newydd. Fodd bynnag mae bron pob cydlynnydd ADY mewn ysgolion wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth gan yr awdurdodau lleol ar y system ADY newydd (Estyn, 2018). Dywed Van den Heuvel (2017) er mwyn i'r ddeddf newydd weithio fel y bwriedir, mae angen mwy o hyfforddiant ar gyfer y gweithlu cyfan yn ogystal â chyllid ychwanegol i sicrhau fod cymorth ar gael ar y lefel mwyaf priodol i ddysgwyr ag ADY. Fodd bynnag dywed Dauncey (2016) ar hyn o bryd nid oes grantiau penodol yn ymwneud ag ADY.

Cyflwyniad

Mae ADY yn newid yng Nghymru oherwydd mae'r Llywodraeth yn benderfynol o ddarparu system addysg gwbl gynhwysol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. System ble caiff anghenion eu hadnabod yn gynnar a'u datrys yn gyflym ble bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gyrraedd eu potensial (Llywodraeth Cymru, 2018b). Dywed Dauncey (2016) fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod nad yw'r system bresennol ddim bellach yn addas i'r pwrpas. Cred felly y dylid disodli model a gyflwynwyd dros 30 mlynedd yn ôl gyda dull mwy modern o weithio amlasiantaethol er budd y plentyn neu'r person ifanc (Dauncey, 2016).

Cynllun Datblygu Unigol

Mae'r Ddeddf yn creu un cynllun statudol sef Cynllun Datblygu Unigol (CDU) i ddisodli yr amrywiaeth bresennol o gynlluniau statudol ac anstatudol ar gyfer dysgwyr ag ADY mewn ysgolion ac addysg bellach (Llywodraeth Cymru, 2018b). O dan y system newydd bydd gan plant ag ADY hawl i CDU (SNAP Cymru, 2018). Lle penderfynwyd bod gan plentyn ADY, rhaid paratoi CDU ar gyfer y plentyn (SNAP Cymru, 2018). Unwaith y bydd angen plant a phobl ifanc am CDU wedi'i nodi, bydd y broses yn cael ei dechrau gan y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (SNAP Cymru, dim dyddiad).

Dywed Collins (2017) bod materion a godwyd yn cynnwys diffyg templed cenedlaethol ar gyfer CDU sydd yn golygu y gallai pob ysgol ac awdurdod lleol gynhyrchu CDU sydd yn edrych yn wahanol. Bydd hyn yn golygu y gall pob lleoliad ddatblygu un eu hun, a fydd nid yn unig yn arwain at waith ychwanegol i weithwyr proffesiynol ond yn ei gwneud yn llai cludadwy (Plant yng Nghymru, dim dyddiad). Dywed SNAP Cymru (2018) bydd trosi datganiadau yn digwydd dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae'r dull fesul cam yn blaenoriaethu trosglwyddo dysgwyr a datganiadau. Yn ogystal mae'r dull yn canolbwyntio ar ddysgwyr ieuengaf er mwyn sicrhau ymyraeth gynnar ac effeithiol (SNAP Cymru, dim dyddiad).

Os ydy'r cynlluniau datblygu unigol yn edrych yn wahanol, bydd hyn yn ei gwneud yn anodd i asiantaethau sydd yn cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu hawliau ac i wirio os ydy yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol (Plant yng Nghymru, dim dyddiad).

Amcanion y Ddeddf

Tri amcan cyffredinol Llywodraeth Cymru am y Ddeddf ydy:

1. Fframwaith deddfwriaethol unedig
 2. Proses integredig, gyd gweithredol o asesu, cynllunio a monitro sydd yn hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol
 3. System deg a thryloyw
- (Dauncey, 2018).

Mae yna 11 nod i'r Ddeddf (Llywodraeth Cymru, 2018b).

1. Cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
2. Ystod oedran 0-25 oed
3. Cynllun unedig
4. Cyfranogiad cynyddol gan blant a phobl ifanc
5. Dyheadau uchel a chanlyniadau gwell
6. System fwy syml a llai gwrthwynebus
7. Mwy o weithredu
8. Osgoi anghytundebau a datrys anghydfod yn gynharach
9. Hawliau apelio clir a chyson
10. Y Cod ADY
11. System ddwyieithog

(Llywodraeth Cymru, 2018b).

Casgliad - I grynhoi, fel y dywed y Gweinidog, bydd gweithredu'r diwygiadau yn sicrhau gwelliannau sylweddol i bawb dan sylw a fydd yn cael effaith wirioneddol a chadarnhaol ar fywydau rhai o bobl fwyaf agored i niwed y gymdeithas (Llywodraeth Cymru, 2016).

Darllen Pellach: Y Ddeddf - <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents>

Act Summary: Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018' <http://www.assembly.wales/research%20documents/18-023/18-23-web-english.pdf>